

Craffu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl yng Ngogledd Cymru Papur briffio

Gorffennaf 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6322**
E-bost: **amy.clifton@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl yng Ngogledd Cymru

Papur briffio

Gorffennaf 2023

Golygwyd gan:

Rebekah James ac Amy Clifton



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	1
2.1 Llywodraethu a mesurau arbennig.....	1
2.2 Uwch-arweinwyr	2
2.3 Perfformiad	3
2.4 Cyllid	3
3. Materion iechyd eraill	4
3.1 Iechyd Cymru	4
3.2 Ysgol Feddygol Gogledd Cymru	5
3.3 Deintyddiaeth	5
3.4 Fferyllfeydd cymunedol	6
4. Trafnidiaeth	7
4.1 Yr Adolygiad Ffyrdd	7
Croesi'r Fenai.....	8
4.2 Gwasanaethau bws a thrên	10
Gwasanaethau rheilffyrdd.....	11
Gwasanaethau bysiau.....	12

4.3 Porthladdoedd rhydd	14
Porthladd Rhydd Ynys Môn	15

5. Datblygiad economaidd a chyflogaeth15

5.1 Colli swyddi yn 2 Sisters, Llangefni	15
5.2 Datblygiad economaidd yn Wrecsam	16
Prosiect Porth Wrecsam	17
Hwb menter Wrecsam yn cau.....	18
5.3 Bargen Twf y Gogledd.....	19
5.4 Cysylltiadau economaidd trawsffiniol.....	19

1. Cyflwyniad

Ar 7 Gorffennaf, bydd y **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog** yn cyfarfod yn Wrecsam i graffu ar waith y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ar y gefnogaeth i bobl yng ngogledd Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol y mae'n bosibl y cânt eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2.1 Llywodraethu a mesurau arbennig

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad mwyaf yn GIG Cymru, gyda chyllideb o £1.87 biliwn a gweithlu o dros 19,000. Mae'n darparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws gogledd Cymru.

Mae galwadau wedi bod – a wrthodwyd gan Lywodraeth Cymru – i'r bwrdd iechyd gael ei 'chwalu'. Mae Ymchwil y Senedd wedi **cyhoeddi amserlen** yn crynhoi digwyddiadau allweddol sydd wedi effeithio ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers i bryderon cychwynnol gael eu codi yn 2012.

Ym mis Mehefin 2015 cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei **osod dan Fesurau Arbennig** – y lefel uchaf o uwchgyfeirio o dan **Drefniadau Dwysáu ac Ymyrryd GIG Cymru**. Nodwyd pum maes allweddol lle roedd angen gwella;

- llywodraethiant;
- arweinyddiaeth a goruchwyliaeth;
- gwasanaethau iechyd meddwl;
- gwasanaethau mamolaeth;
- ymgysylltu â'r cyhoedd.

Ym mis Chwefror 2018 **cafodd gwasanaethau mamolaeth eu dad-ddwysáu** o fesurau arbennig, ynghyd â **gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau** ym mis Chwefror 2019. Ym mis Tachwedd 2020 **cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** ar y pryd y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei gyfanrwydd yn cael ei **ddad-ddwysáu o fesurau arbennig** a'i symud i ymyrraeth wedi'i thargedu ar unwaith. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan £82m o gyllid pellach y flwyddyn dros dair blynedd a hanner. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Fframwaith Ymyriad wedi'i Dargedu** a oedd

yn nodi'r meysydd yr oedd disgwylir i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu gwella.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd** a oedd yn amlygu pryderon sylweddol am y ffordd roedd y bwrdd iechyd yn cael ei reoli. Nododd Archwilio Cymru:

[...] bod cysylltiadau gweithio wedi chwalu o fewn y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd yn amharu yn sylfaenol ar ei allu i fynd i'r afael â nifer o heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Canfu'r adroddiad hefyd, heb ryw fath o ymyrraeth i sefydlu Tîm Gweithredol a bwrdd ehangach mwy unedig, bod y sefyllfa bresennol yn annhebygol o gael ei datrys.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, ar 27 Chwefror 2023, **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru ei bod, unwaith eto, yn gosod y Bwrdd o dan fesurau arbennig ar unwaith. Roedd hyn hefyd yn cynnwys penodi **Cadeirydd ac aelodau annibynnol** newydd i'r Bwrdd ynghyd â tîm ymyrraeth a chymorth y bwrdd iechyd. Yn y **Cyfarfod Llawn** ar 28 Chwefror 2023, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y tîm hwn yn cael ei gontractio i ddechrau am chwe mis i gefnogi'r Bwrdd. **Dywedodd mewn datganiad ysgrifenedig:**

Bydd eu gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol lle mae heriau yn bod, gan gynnwys arweinyddiaeth, diwylliant, perfformiad gweithredol, gwella'r adrannau achosion brys a threfniant gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau fasgwlaidd.

... Bydd ymgyrch i recriwtio aelodau annibynnol newydd i'r bwrdd tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol hwn o sefydlogi yn dechrau yn ddiweddarach eleni.

Derbyniodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr **Gynllun Ymateb Sefydliadol Mesurau Arbennig** ar 25 Mai 2023 a chytuno arno.

2.2 Uwch-arweinwyr

Ym mis Mai 2023, cafodd Carol Shilabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ei **phenodi'n Brif Weithredwr Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** yn dilyn ymadawriad deiliad blaenorol y swydd ym mis Hydref 2022. Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr parhaol ym mis Mawrth, er bod **adroddiadau** bod y broses wedi bod yn aflwyddiannus hyd yma. Mae **trosiant sylweddol wedi bod yn nhim gweithredol y Bwrdd**, ac ers 2019 bu pedwar Prif Weithredwr gwahanol – naill ai ar sail barhaol neu dros dro.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi cadarnhau, **mewn gohebiaeth ddiweddar** i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fod cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad cyflym o bortffolios y Tîm Gweithredol wedi'i ddatblygu hefyd ac y byddai hyn yn dechrau yn ystod mis Mai 2023.

2.3 Perfformiad

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar weithgarwch a pherfformiad GIG Cymru **ar 22 Mehefin 2023** ac mae'n ymwneud â mis Ebrill a mis Mai 2023. Mae'r data yn nodi meysydd sy'n peri pryder ar lefel Cymru gyfan ac ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, treuliodd 55.6% o gleifion lai na'r amser targed o 4 awr mewn adrannau brys mawr, o'i gymharu â **tharged o 95%** a chyfartaledd Cymru gyfan o 72%;
- Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, treuliodd 86.5% o gleifion lai na'r amser targed o 12 awr mewn adrannau brys mawr, o'i gymharu â **tharged o 100%** a chyfartaledd Cymru gyfan o 90.9%;
- Ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 11,461 o gleifion yn aros dros flwyddyn am apwyntiad claf allanol cyntaf, 34,844 yn aros dros flwyddyn am driniaeth, a 9,155 yn aros dros 2 flynedd. Mae hyn yn cymharu â chyfansymiau Cymru gyfan o 52,831, 136,534, a 31,481;
- Er mai dim ond 62.5% o gleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yn cyrraedd y targed ar gyfer y llwybr lle'r amheuir canser o 62 diwrnod, roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 55.3% ond yn is na'r targed o 75%.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi **crynodeb o'r cynnydd** yn erbyn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau'r ôl-groniad o ran rhestrau aros.

2.4 Cyllid

Ar 3 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **gymorth strategol** ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys "cyflenwi ar gyfer y diffyg o hyd at £40 miliwn y flwyddyn". Dywedodd y Gweinidog ar y pryd

Rwy'n cydnabod bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. Fy mwriad felly yw parhau â'r gefnogaeth hon ar gyfer y blynyddoedd 2021-22 hyd at 2023-24, a chan gynnwys 2023-24.

Nododd yr Adroddiad Cyllid **a dderbyniwyd gan Fwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 25 Mai 2023** mai "y sefyllfa diwedd blwyddyn heb ei harchwilio ar gyfer 2022/23 yw gwarged o £0.4m". Fodd bynnag, nododd hefyd:

Cynllun ariannol cychwynnol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023/24 yw diffyg o £134.1m. Mae sefyllfa mis Ebrill yn nodi diffyg o £12.2m yn ystod y mis, sef £1.0m yn uwch na'r cynllun ariannol proffiliedig o £11.2m ar gyfer Mis 1, a hyn yn bennaf oherwydd costau allanoli.

Ar 7 Mehefin 2023, yn dilyn **sylw eang** yn ddiweddar, cynhaliwyd dadl yr wrthblaid yn y Cyfarfod Llawn yn galw am gyhoeddi adroddiad Ernst and Young ar faterion cyfrifyddu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwrthodwyd y cynnig.

3. Materion iechyd eraill

3.1 Iechyd Cymru

Mae **adroddiad blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru ar gyfer 2021-22** yn nodi nifer o bryderon allweddol sy'n ymwneud ag iechyd y genedl:

- Mae gwahaniaeth sylweddol o hyd yn y disgwyliad oes a'r disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru, ac nid oes unrhyw arwydd bod y bwch hwn yn lleihau. Mae ffyrdd o fyw afiach yn cael eu gweld yn amlach yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd;
- Nododd **Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022** hefyd fod 46% o oedolion yng Nghymru wedi nodi bod ganddynt o leiaf un salwch hirsefydlog a bod 36% o bobl yn bwysau iach, tra bod 62% dros eu pwysau neu'n ordew.
- Yng ngogledd Cymru, er bod 75% o bobl yn dweud eu bod mewn iechyd da neu dda iawn, mae pryderon o hyd ynghylch ffyrdd o fyw afiach (**ffigurau 2020**);
- Dros yr 20 mlynedd nesaf, mae disgwyl i Gymru barhau ar duedd tuag at boblogaeth sy'n heneiddio. Mae disgwyl i nifer y bobl 65 oed a hŷn yn y boblogaeth gynyddu o 21% i 26%.

3.2 Ysgol Feddygol Gogledd Cymru

Yn 2020, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd **grŵp** i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu ysgol feddygol yng ngogledd Cymru. Ystyriodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru gynigion ac adrodd yn ôl i'r Gweinidog **ym mis Medi 2021**. Cytunodd y Gweinidog ar ei argymhellion ac i weithio tuag at ddarparu ysgol feddygol yng ngogledd Cymru.

Ar 26 Ionawr 2023, **cyhoeddodd y Gweinidog**:

Rwy'n falch o gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu hyd at 140 o leoedd i fyfyrwyr meddygol bob blwyddyn yn Ysgol Feddygol newydd y Gogledd. Bydd y myfyrwyr cyntaf yn cael eu derbyn yn 2024.

Rydym yn disgwyl i nifer y myfyrwyr gynyddu'n raddol, gan gyrraedd y nifer uchaf posibl o 2029 ymlaen. Bydd y cynnydd graddol hwn yn rhoi amser i asesu a gwerthuso ansawdd yr hyfforddiant a phrofiad y myfyrwyr yn yr ysgol feddygol newydd.

3.3 Deintyddiaeth

Mae anawsterau o ran cael mynediad at ofal deintyddol yn y GIG yng Nghymru wedi cael cryn dipyn o sylw yn ddiweddar, gyda nifer o Aelodau'r Senedd yn **disgrifio'r sefyllfa fel 'argyfwng'**. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl ymchwil** ar 19 Mehefin 2023 sy'n amlinellu'r materion sy'n ymwneud â mynediad at ddeintyddiaeth yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol **adroddiad ar ddeintyddiaeth yng Nghymru** ym mis Chwefror 2023 ac **ymatebodd Llywodraeth Cymru i'w argymhellion** ym mis Ebrill 2023.

Yn y Cyfarfod Llawn ar **24 Mai 2023** a **14 Mawrth 2023**, cyfeiriodd nifer o Aelodau at broblemau wrth gael mynediad at ofal deintyddol yng ngogledd Cymru, gyda rhai Aelodau yn cyfeirio at ymchwil yr oeddent wedi'i wneud ar y mater hwn. Mae'r problemau a amlinellwyd yn cynnwys prinder practisau deintyddol y GIG sy'n derbyn cleifion newydd, amseroedd aros hir, a nifer cyfyngedig o bractisau deintyddol y GIG sydd ar gael, gydag eraill ond yn cynnig deintyddiaeth breifat.

Cafwyd dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y **Cyfarfod Llawn ar 21 Mehefin 2023**. Yn ystod y ddadl, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod bod "llawer i'w wneud i ddatrys problem mynediad at ddeintyddiaeth y GIG", a dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar "greu ateb cynaliadwy hirdymor" sy'n cynnwys bwrw ymlaen â'r

mwyafrif o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y canlynol:

Ond mae'n rhaid imi ddweud wrthyich nad oes ateb cyflym mewn perthynas â deintyddiaeth, ac er mwyn inni ddatrys y sefyllfa, bydd yn costio llawer iawn o arian sy'n anodd iawn dod o hyd iddo ar hyn o bryd.

Mae rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â deintyddiaeth yng ngogledd Cymru yn cynnwys:

- **Cynnig gwell** i annog hyfforddeion deintyddol yn y dyfodol i gwblhau eu blwyddyn sylfaen mewn practisau deintyddol ledled Cymru wledig, sy'n cynnwys codiad cyflog o £5,000 a chymorth academiaidd a llesiant gwell.
- Sefydlu **Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru** ym Mangor, sy'n anelu at ddarparu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant ac uwchsgilio i bob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol ar lefel israddedig ac ôl-raddedig.
- **Uned ddeintyddol symudol** i'w threialu ar safle Ysgol y Moelwyn ym Mlaenau Ffestiniog, lle dros nifer o wythnosau, bydd pob plentyn yn yr ysgol yn cael cyfle i gael archwiliad deintyddol a chyingor ar iechyd y geg, a bydd yn cael ei gyfeirio at unrhyw driniaeth sydd ei angen arno.

Mae **galwadau wedi bod am ysgol ddeintyddol newydd yng Ngogledd Cymru** ac mae'r **Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan** ei bod hi'n cefnogi'r cynnig at ei gilydd. Er hynny, mae'n dweud ei fod yn ddatblygiad hirdymor fydd yn gofyn am gryn dipyn o fuddsoddiad, ac, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn "brin iawn o arian".

3.4 Fferyllfeydd cymunedol

Fel rhan o'r system **Dewis Fferyllfa**, mae llawer o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru bellach yn cynnig ystod eang o wasanaethau gyda'r nod o sicrhau bod llai o bobl yn mynd at eu meddyg teulu gyda mân broblemau. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Rhagnodwyr Annibynnol, sy'n caniatáu i fferyllwyr asesu cleifion a rhoi cyngor hunanreolaeth neu ragnodi meddyginiaethau ar gyfer cyflyrau penodol. Gall fferyllwyr weld cofnodion meddygon teulu Cymru claf i'w galluogi i drin mân afiechydon fel cyflyrau croen a heintiau wrin.

Mae **147 o fferyllfeydd cymunedol** ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ym mis Hydref 2021, roedd **13 o fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig Gwasanaeth Rhagnodwyr Annibynnol** ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ym mis Tachwedd 2021, **cyhoeddodd y bwrdd iechyd** y byddai'r nifer

hwn yn cynyddu i 25. Byddai'r ehangu arfaethedig hwn yn darparu mynediad i'r cynllun ym mhob un o'r chwe sir yng ngogledd Cymru, ac mewn **tua 15% o fferyllfeydd ar draws y rhanbarth.**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **drefniadau cytundebol newydd i fferyllfeydd cymunedol** ym mis Rhagfyr 2021. Fel rhan o hyn, cyhoeddodd y byddai cynnydd mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau rhagnodi annibynnol o £4.2m yn 2022 i £12.2m yn 2023, ac yna £18.4m yn 2024. Ymrwymodd hefyd i gefnogi o leiaf 60 o fferyllwyr cymunedol i gwblhau hyfforddiant i ddod yn fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol bob blwyddyn.

Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodau tymor byr o'r newydd ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru trwy'r **cynllun Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach**, hyd at 2025. Un o'r nodau yn y cynllun hwn yw "cynyddu mynediad cleifion at fferyllwyr sy'n rhagnodi'n annibynnol, gan sicrhau bod arbenigedd rhagnodwyr yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar draws pob lleoliad gofal". Fel rhan o hyn, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **gynlluniau** i ehangu gwasanaethau rhagnodi annibynnol fel bod un o bob tair fferyllfa yng Nghymru yn cynnig y gwasanaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

4. Trafnidiaeth

4.1 Yr Adolygiad Ffyrdd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad terfynol y panel adolygu ffyrdd**, a'i **hymateb ei hun**, ym mis Chwefror. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **erthygl** ar y pryd sy'n rhoi rhagor o fanylion.

Mae'r adroddiad yn gwneud 51 o argymhellion. Sefydlodd dau brif argymhelliad "4x4 o ddibenion ac amodau ar gyfer buddsoddi mewn ffyrdd yn y dyfodol" (gweler yr erthygl am fanylion).

O'r cynlluniau eu hunain, ystyriwyd bod 17 yn gyson â'r meini prawf 4x4. Ar gyfer 17 arall, roedd y panel o'r farn bod dull gwahanol neu ateb arall yn well. Ni chanfu'r panel unrhyw achos dros y 14 oedd yn weddill.

O'r 16 o gynlluniau a adolygwyd yng ngogledd Cymru **cafodd 15 ohonynt eu stopio neu eu hanfon yn ôl i'w hailystyried.**

Mae ymateb manwl Llywodraeth Cymru wedi'i nodi mewn **datganiad polisi newydd ar yr adolygiad ffyrdd** – sy'n cymhwyso'r "4x4 o ddibenion ac amodau" – a **Chynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Trafnidiaeth.**

Mae rhai o gynlluniau'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn wahanol i argymhellion y panel ar gynlluniau. Newidiwyd yr argymhelliad na ddylai'r drydedd bont dros afon Menai fynd yn ei blaen i atgyfeiriad i **Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru** i ddatblygu opsiynau ar gyfer gwytnwch ar y Fenai. Hefyd, er bod **rhaglen Gwella Coridor Sir y Fflint wedi'i chanslo**, mae'r Cynllun yn ymrwymo i ddatblygu opsiynau i wella ansawdd aer ar yr A494 yn Aston Hill.

Ar 13 Mehefin awgrymodd adroddiad yn y cyfryngau fod dau brosiect economaidd – **prosiect Porth y Gorllewin** yn Wrecsam a **Neuadd Warren** ym Mrychdyn – mewn perygl yn dilyn yr adolygiad ffyrdd. Mae'r adroddiad yn cynnwys dyfyniad gan Gyngor Wrecsam a nododd fod dibenion ac amodau'r adolygu ffyrdd ar gyfer adeiladu ffyrdd yn cynnwys mynediad cynaliadwy i safleoedd economaidd (i ddyfynnu datganiad polisi ffyrdd Llywodraeth Cymru, "rhoi mynediad a chysylltedd i swyddi a chanolfannau gweithgarwch economaidd mewn ffordd sy'n cefnogi newid moddol").

Croesi'r Fenai

Cau Pont Menai

Mae'r pontydd dros y Fenai yn seilwaith o bwys rhyngwladol – rhan o bont dir y DU sy'n cysylltu Iwerddon ag Ewrop. Mae Pont Menai yn cael ei gweithredu a'i chynnal fel consesiwn gan **UK Highways A55 Ltd.**

Caeodd y bont ar 21 Hydref 2022 oherwydd pryderon am ddiogelwch. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Hydref.** Eglurodd fod dadansoddiad technegol yn dilyn Prif Adroddiad Arolygu yn 2019 wedi nodi problemau posibl gyda'r hongwyr. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod gwaith modelu dilynol wedi nodi "risgiau difrifol" a chaewyd y bont. Cafodd ei **hailagor ym mis Chwefror 2023.**

Cynlluniau ar gyfer Trydedd Bont dros y Fenai

Roedd cynlluniau ar gyfer trydedd bont dros y Fenai **wedi cael eu trafod ers**

2007 a daeth yn opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn 2018. Ym mis Rhagfyr 2022, nododd **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Diweddariad ar y Llif Prosiectau** ddyddiad cyflawni amcangyfrifedig o 2029/30.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, yn dilyn argymhelliad yr adolygiad ffyrdd na ddylai'r drydedd groesfan fynd yn ei blaen, mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn ymrwymo, yn lle hynny, i "[g]ynlluniau diwygiedig ar gyfer Coridor y Fenai" gan nodi amserlen o "2022-2027 a thu hwnt".

Roedd cynrychiolwyr gwleidyddol lleol **yn feirniadol o'r penderfyniad** i ganslo'r groesfan.

Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd cynlluniau i sefydlu Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru **yng ngwanwyn 2022**. Mae'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Burns, a fu hefyd yn cadeirio **Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru** a aeth ati i ystyried dewisiadau amgen i ffordd liniaru'r M4.

Yn dilyn yr adolygiad ffyrdd, gofynnwyd i'r Comisiwn hefyd ystyried dyfodol coridor Menai.

Datganiad cynnydd ac adroddiad interim y Comisiwn

Cyhoeddodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ddatganiad cynnydd ym mis Ionawr, cyn yr adroddiad ar yr adolygiad ffyrdd. Mae'r datganiad hwn yn nodi bod "llawer o waith da" eisoes ar y gweill ac y bydd y Comisiwn "yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r gwaith hwn, gan geisio gwella a blaenoriaethu cynigion". Fodd bynnag, mae'n nodi:

Nid yw'r unrhyw un o'r uchelgeisiau hyn heb her, ond ni fydd trefniadau presennol yn cyflawni unrhyw newid sylweddol. Ni fydd lefelau defnydd trafniadaeth gyhoeddus yn cynyddu tra bod diffyg seilwaith a gwasanaethau ac mae angen newid mwy dwfn a blaengar.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad interim ar 8 Mehefin. Mae'r adroddiad interim yn nodi casgliadau ac argymhellion drafft ar ddatblygu a darparu system drafnidiaeth integredig yn y rhanbarth. Disgwylir adroddiad terfynol yn yr hydref.

Mae bysiau a rheilffyrdd yn cael eu trafod isod. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ar deithio llesol, integreiddio moddol a 'galluogwyr' gan gynnwys llywodraethu a chynllunio, beiciau a micro-symudedd, rhannu ceir, cludo nwyddau, cysylltedd digidol a newid ymddygiad (mesurau 'annog' ac 'annog i beidio').

Datganoli rheilffyrdd a chysylltedd trawsffiniol

Mae'r rheilffordd yn fater a gadwyd yn ôl. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am seilwaith, gan gynnwys buddsoddiad gwella, ac eithrio Llinellau Craidd y Cymoedd yn ne Cymru sydd bellach yn eiddo i Lywodraeth Cymru.

Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau gweithredol i fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd, nid yw Cymru'n derbyn unrhyw ddyraniad grant bloc. Mae pwerau gweithredol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd hefyd wedi'u datganoli, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw masnachfaint rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru.

Roedd argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn eang. Fodd bynnag, mae gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd sydd heb eu datganoli yn allweddol i'w llwyddiant.

Mae adroddiad interim Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn nodi:

Gogledd Cymru yw'r rhanbarth yng Nghymru â'r nifer fwyaf o symudiadau trawsffiniol dyddiol i Loegr ac o Loegr. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus trawsffiniol yn bwysig felly.

Mae'r adroddiad yn cydnabod nad yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac yn nodi "y gallai ymrwymadau ariannu pellach gan Lywodraeth y DU gyflawni newid sylweddol yn y rhanbarth".

4.2 Gwasanaethau bws a thrên

Mae **Strategaeth Drafndiaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed** i 45% o deithiau gael eu gwneud drwy drafndiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol erbyn 2040 – i fyny o 32% yn 2021 pan gyhoeddwyd y strategaeth. **Mae Llywodraeth Cymru yn cyfaddef** y bydd hyn yn her.

Mae **datganiad cynnydd** Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ym mis Ionawr yn disgrifio'r ddarpariaeth bresennol o ran bysiau a threnau:

Er bod cyfran fawr o'r boblogaeth wedi'i lleoli o fewn pellter cerdded i safle bws neu orsaf reilffordd, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn aml yn wael. Y mesur safonol a ddefnyddir yw hyd at 400 medr o safle bws neu 800 medr o orsaf reilffordd. Mewn sawl ardal, ceir gwasanaethau afreolaidd a diffyg opsiynau fin nos neu ar benwythnosau nad ydynt yn diwallu anghenion pobl – yn fwyaf amlwg ar gyfer manteisio ar gyflogaeth a gweithgareddau hamdden.

Ar ôl 7pm, dim ond un rhan o dair o drigolion gogledd Cymru sydd â mynediad at wasanaeth trafndiaeth gyhoeddus bob awr, a dim ond un o bob deg ar hugain o drigolion sydd â mynediad at wasanaeth bob

chwarter awr. Mae hwn yn rhwystr sylweddol i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Mae'r **adroddiad interim** yn nodi bod "rhwystrau sylweddol" i deithio ar drafndiaeth gyhoeddus a bod "llawer o achosion lle mae ymarfer a darpariaeth ar lawr gwlad yn groes i ddyheadau ar gyfer system drafndiaeth integredig gynaliadwy yng ngogledd Cymru".

Mae hefyd yn nodi "nad oes gan lawer o bobl yn y rhanbarth fynediad at gar" ac "nid yw byw yn agos at safleoedd bws a gorsafoedd o gymorth os nad yw'r gwasanaeth a ddarperir yn diwallu eich anghenion neu ddim yn fforddiadwy".

Mae'n argymhell "y dylid blaenoriaethu gwelliannau i wasanaethau bysiau a rheilffyrdd presennol yn y byrdymor."

Gwasanaethau rheilffyrdd

Mae adroddiad interim y Comisiwn yn nodi:

Er gwaethaf y llinellau rheilffordd sy'n cysylltu aneddiadau allweddol yng ngogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, mae gan lawer o wasanaethau trenau amllder ac oriau gweithredu cyfyngedig oherwydd cyfuniad o gyfyngiadau seilwaith ffisegol a diffyg buddsoddiad hirdymor mewn gwelliannau i wasanaethau.

Mae'r adroddiad yn nodi pwysigrwydd cysylltiadau rheilffyrdd trawsffiniol, a chysylltiadau â HS2. Mae hefyd yn nodi na fydd Cymru'n derbyn unrhyw gyllid canlyniadol o wariant HS2.

Mae'n dweud bod angen gwelliannau i amllder gwasanaethau a bod angen ymestyn oriau gweithredu. Nodir gwelliannau penodol o dudalen 18 **yr adroddiad**.

Mae **adroddiadau diweddar yn y cyfryngau** yn disgrifio galwadau gan grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd yng ngogledd Cymru i gael adolygiad o Trafndiaeth Cymru yn dilyn yr hyn y maent yn ei weld fel gwasanaeth gwael gan gynnwys oedi, canslo, trenau gorlawn a lefelau gwael o gyfathrebu.

Ym mis Ebrill, tynnodd Transport Focus, y corff gwarchod ar gyfer teithwyr sylw at faterion ar draws rhwydwaith rheilffyrdd Cymru, a galwodd ar i Trafndiaeth Cymru ddarparu gwasanaeth rheilffordd mwy dibynadwy ar frys ar ôl misoedd o darfu ar deithwyr. Yn ei arolwg diweddaraf, dywedodd Ffocws ar Drafndiaeth fod teithwyr wedi nodi mai gwasanaethau rheilffordd Trafndiaeth Cymru oedd y rhai gwaethaf ar gyfer boddhad cyffredinol (ochr yn ochr â rhai TransPennine Express).

Dechreuodd masnachfaint bresennol Llywodraeth Cymru ar reilffyrdd Trafnidiaeth Cymru weithredu ym mis Hydref 2018. Cymerodd Llywodraeth Cymru berchnogaeth Trafnidiaeth Cymru drosodd o KeolisAmey ym mis Chwefror 2021 i redeg gwasanaethau'n uniongyrchol fel **gweithredwr dewis olaf**.

Mae **erthygl Ymchwil y Senedd**, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 ar adeg y cyhoeddiad, yn rhoi cefndir pellach i'r broses hon.

Mae'r 'gwladoli' hwn o ran gwasanaethau rheilffordd yn tynnu ar **ddarpariaethau brys deddfwriaeth rheilffyrdd**. Mae **Adran 25 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993**, sy'n atal gweithredwyr y sector cyhoeddus rhag cael masnachfreintiau rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr, yn parhau i fod yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cymru **wedi galw ers tro** i'r ddarpariaeth hon gael ei datgymhwyso yng Nghymru i ganiatáu dull 'nid er elw' o ddarparu gwasanaethau.

Gwasanaethau bysiau

Llai o deithwyr a gwasanaethau "gwael" yng ngogledd Cymru

Mae nifer y bobl sy'n teithio ar fysiau ledled Prydain Fawr wedi bod yn lleihau ers blynyddoedd lawer – tuedd sy'n cael ei yrru gan **amrywiaeth eang o ffactorau**. Fodd bynnag, plymiodd nifer y teithwyr yn ystod y pandemig ac nid ydynt wedi gwella.

Mae adroddiad interim y Comisiwn yn dweud, "mae'r rhwydwaith bysiau presennol yn y rhanbarth yn wael, ag amllder ac oriau gweithredu cyfyngedig, yn ogystal ag amseroedd teithio gwael yn aml o'u cymharu â'r car".

Mae'n **nodi nifer o argymhellion** o dudalen 24 – gan gynnwys cymorth ar gyfer deddfwriaeth diwygio bysiau (gweler isod).

Pwysau i ariannu bysiau a risgiau i wasanaethau

Darparodd Llywodraeth Cymru dros £150m o gyllid brys i wasanaethau bysiau yn ystod y pandemig drwy sefydlu'r **Cynllun Brys ar gyfer Bysiau**. Mae wedi parhau ar ryw ffurf neu'i gilydd ers dechrau 2020.

Er bod £28m wedi'i gynnwys ar gyfer y Cynllun Brys yn **y papur Cyllideb drafft a ddarparwyd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Seilwaith Newid Hinsawdd ym mis Ionawr**, ym mis Chwefror **dywedodd Llywodraeth Cymru** fod amheuaeth ynghylch y cyllid hwn.

Ers hynny, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi gwneud cyfres o ddatganiadau yn diweddarau'r Senedd ar waith i ddiogelu gwasanaethau. **Ar 23 Mai dywedodd**, "Rydym bron â dod o hyd i ateb a fydd yn ein galluogi i sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i ddiogelu cymaint o'r rhwydwaith â phosibl am weddill y flwyddyn ariannol hon". Byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £46m ar gael "o gyllidebau bysiau i gefnogi'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) a threfniadau olynol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan", yn ogystal â chyllid teithio rhatach a "chefnogaeth reolaidd" arall ar gyfer gwasanaethau.

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau bysiau rhanddeiliaid yn hanfodol i **fynd i'r afael â thlodi trafndiaeth**, ac i ganiatáu i bobl gael mynediad at wasanaethau fel iechyd ac addysg, ac ar gyfer yr economi.

Mae'r **Pwyllgor Amgylchedd a Seilwaith Newid Hinsawdd wedi ysgrifennu** at y Dirprwy Weinidog i ofyn sut mae'r effaith ehangach hon o ran gwasanaethau bysiau yn cael ei hadlewyrchu ym mhroses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn enwedig pa waith sydd wedi'i wneud i ystyried yr effaith ehangach hon a "rhinweddau ailgyfeirio cyllid o bortffolios eraill yn y cyd-destun hwnnw".

Ar 16 Mehefin, gwnaeth y Dirprwy Weinidog **ddatganiad** yn dweud y byddai'r £46m hwn yn ariannu Cronfa Bontio newydd ar gyfer Bysiau pan fyddai'r Cynllun Brys ar gyfer Bysiau yn dod i ben ym mis Gorffennaf.

Diwygio bysiau a'r risg o ran refeniw

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i gyflwyno Bil Gwasanaethau Bysiau a fydd yn cyflwyno masnachfreinio ledled Cymru. **Mae cynigion Papur Gwyn yn nodi cynlluniau ar gyfer diwygio sylfaenol**. Gweinidogion Cymru, yn hytrach nag awdurdodau lleol, fyddai'r awdurdod masnachfreinio. Byddai gweithredwyr bysiau sy'n darparu gwasanaethau masnachfaint yn derbyn ffi, fel bod Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo'r risg o ran refeniw yn sgil amrywiadau yn nifer y teithwyr.

Bydd y trefniant hwn yn gofyn am gyllid sefydlog, hyblyg a chynnydd mewn cyllid, fwy na thebyg, er mwyn bod yn effeithiol, ac yn enwedig i gyrraedd targedau newid moddol llym. Yn sgil y sefyllfa ariannol ansicr ar hyn o bryd, mae **llythyr y Pwyllgor Amgylchedd a Seilwaith Newid Hinsawdd** i'r Dirprwy Weinidog yn gofyn:

O ystyried eich bwriad mai Llywodraeth Cymru fydd yr awdurdod masnachfreinio ac yn cario'r risg refeniw ar gyfer pob gwasanaeth bws masnachfrait ledled Cymru, a allwch amlinellu sut y bydd y trefniant arfaethedig yn sicrhau bod y risg hon yn cael ei rheoli ac nad yw'r heriau a'r ansicrwydd ariannol presennol yn cael eu hailadrodd a'u gwaethygu drwy fasnachfreinio?

4.3 Porthladdoedd rhydd

Ardaloedd sydd o fewn ffin ddaearyddol gwlad ond sydd y tu allan i'w hardal dollau yw porthladdoedd rhydd. Gall nwyddau gael eu mewnfario a'u hallforio heb doll na threthi. Gall gwerth gael ei ychwanegu trwy fod nwyddau yn cael eu prosesu gan fusnesau sydd wedi'u lleoli yn y porthladd cyn cael eu hail-allforio neu dalu trethi wrth fynd i mewn i'r farchnad ddomestig. Efallai y byddant hefyd yn elwa o gymhellion treth a chymhellion di-dreth pellach.

Lansiodd Llywodraeth y DU **Brospectws Porthladdoedd Rhydd** ar gyfer Lloegr ym mis Tachwedd 2020. Roedd y prospectws hwn yn nodi uchelgais i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sefydlu o leiaf un Porthladd Rhydd yr un yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Roedd gan Lywodraeth Cymru bryderon am hyn, gan gynnwys o amgylch yr effaith amgylcheddol. Pwysleisiodd Gweinidogion Cymru fod angen i borthladdoedd rhydd yng Nghymru a Lloegr gael yr un cymorth ariannol ac roedd ganddynt bryderon am gyflogaeth a safonau amgylcheddol. **Mae eraill wedi mynegi pryderon** y byddai'r ymagwedd yn dadleoli swyddi a pherfformiad economaidd yn hytrach na thyfu'r ddau yn gyffredinol.

Ym mis **Gorffennaf 2021**, nododd Llywodraeth Cymru yr amodau yr oedd yn disgwyl iddynt gael eu bodloni. Daeth y ddwy lywodraeth **i gytundeb** ym mis Mai 2022. Lanswyd y **prospectws ymgeisio** ar gyfer porthladdoedd rhydd yng Nghymru ym mis Medi 2022.

Daeth **tri chynnig** i law. Ar 23 Mawrth 2023, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru** mai **Porthladd Rhydd Ynys Môn** a'r **Porthladd Rhydd Celtaidd** – yn cynnwys Aberdaugleddau a Phort Talbot – oedd yn llwyddiannus. Bydd y cynlluniau hyn nawr yn symud i'r cam nesaf – datblygu achos busnes amlinellol.

Gyda'i gilydd, mae disgwyl i'r ddau borthladd rhydd greu 20,000 o swyddi erbyn 2030 a denu buddsoddiad cyhoeddus a phreifat o hyd at £4.9bn.

Porthladd Rhydd Ynys Môn

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn esbonio:

*Bydd y porthladd rhydd wedi'i leoli o gwmpas porthladd Caergybi, Parth Ffyniant Ynys Môn, Rhos-goch ac **M-Sparc**. Bydd y porthladd rhydd yn hybu Rhaglen Ynys Ynni Môn trwy ganolbwyntio ar brofion technoleg ynni ar wely'r môr (llanw a gwynt). Yr amcan yw creu rhwng 3,500 a 13,000 o swyddi erbyn 2030, a chreu GYG o ryw £500 miliwn. Rhagwelir y daw llawer o fewnfuddsoddiad hefyd, gan gynnwys £1.4 biliwn posibl yn y sector ynni gwyrdd.*

Mae'r adran **cwestiynau cyffredin ar wefan y porthladd rhydd** yn dweud bod sawl safle yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer lleoliad y porthladd rhydd. O ran seilwaith cludo nwyddau ar ffyrdd a rheilffyrdd, mae'r cwestiynau cyffredin yn dweud:

Dros y 10-15 mlynedd nesaf, disgwyliwn weld adfywiad ar Ynys Môn ac ar draws gogledd Cymru yn ehangach. Wrth i ni weld busnesau newydd yn dod i elwa ar y porthladd rhydd, bydd y seilwaith yn cael ei uwchraddio'n unol â hynny.

Mae'r cwestiynau cyffredin hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd y bydd y porthladd rhydd yn creu swyddi newydd, yn hytrach na dadleoli swyddi presennol, ac na fydd yn arwain at ostyngiad mewn safonau llafur, amgylcheddol ac arferion busnes.

Mae pryderon am arferion busnes wedi codi yn Lloegr lle mae Llywodraeth y DU **wedi gorchymyn adolygiad** i gynlluniau ar gyfer un o borthladdoedd rhydd Lloegr yn Teeside yn dilyn honiadau o lygredd.

5. Datblygiad economaidd a chyflogaeth

5.1 Colli swyddi yn 2 Sisters, Llangefni

Ar 26 Ionawr, **cyhoeddodd 2 Sisters ei fwriad** i gau ei ffatri yn Llangefni, gan arwain at golli tua 730 o swyddi. Caeodd y ffatri ei drysau wedi hynny ar 31 Mawrth.

Ar 26 Ionawr, **cyhoeddodd Gweinidog yr Economi** y byddai, ochr yn ochr â Chyngor Sir Ynys Môn, yn sefydlu tasglu i gefnogi gweithwyr yr effeithiwyd arnynt a'r gymuned leol. Mae'r **tasglu** yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2 Sisters ac Uno'r Undeb.

Mae **canolfan gyflogaeth** wedi cael ei sefydlu yng Nghanolfan Fusnes Bryn Cefni

yn Llangefni, yn cynnwys nifer o sefydliadau gan gynnwys Cymru'n Gweithio, Cyngor ar Bopeth a'r Ganolfan Byd Gwaith. Ar 6 Ebrill, **cyhoeddodd Gweinidog yr Economi gyllid o £206,000** ar gyfer rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn Ynys Môn a Gwynedd.

Bydd y buddsoddiad ychwanegol yn:

- galluogi'r elusen gyflogaeth leol Môn CF a Chyngor Gwynedd i gyflogi mentoriaid cyflogaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddod ac yn
- caniatáu i Môn CF gomisiynu gwasanaethau Cyngor ar Bopeth ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu diswyddo.

Mae cyn-aelodau o staff hefyd yn cael eu cefnogi drwy raglen ReAct+ Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cymorth wedi'i deilwra iddynt i sicrhau gwaith cyn gynted â phosibl.

O ran y defnydd o'r safle yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol **yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mawrth:**

... bod cyfarfod wedi'i gynnal ar 15 Mawrth rhwng cyngor Môn, Swyddfa Cymru, Llywodraeth Cymru ac Amber Holdings sy'n berchen ar y safle, a bod y cyfarfod hwnnw wedi sicrhau cytundeb i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gytuno ar ddefnydd o'r safle yn y dyfodol yn unol ag anghenion lleol, a hefyd i ymwneud â busnesau lleol i benderfynu ar y math o eiddo sydd ei angen yn y farchnad bresennol. Ac unwaith eto, byddai honno'n drafodaeth dan arweiniad Gweinidog yr Economi. Ond roeddwn i'n meddwl y gallai rhannu hynny fod o ddiddordeb i gyd-aelodau y prynhawn yma hefyd.

Ar 5 Mehefin, **adroddodd y Daily Post** fod y safle wedi mynd ar y farchnad fel safle Llangefni Point, a bod y prif gyfleuster yn werth £2m, gyda dau ddarn arall o dir yn werth £125,000 yr un.

5.2 Datblygiad economaidd yn Wrecsam

Effaith economaidd llwyddiant diweddar Clwb Pêl-droed Wrecsam

Ers i Ryan Reynolds a Rob McElhenney ddod yn berchnogion Clwb Pêl-droed Wrecsam **ym mis Chwefror 2021**, adroddwyd bod **diddordeb sylweddol** yn y clwb a'r ddinas o'r Unol Daleithiau. Darlledwyd y rhaglen ddogfen 'Welcome to Wrexham' rhwng mis Awst a mis Hydref 2022. **Yn ystod y 12 mis hyd at fis Chwefror 2023**, gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n dilyn Clwb Pêl-droed Wrecsam ar y cyfryngau cymdeithasol i dros 1.5 miliwn, gweld cynnydd o ran gwerthiant crysau, a gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y bobl oedd yn mynd i'r

gemau.

Mewn **erthygl ddiweddar** yn y cyfryngau, dywedodd rheolwr twristiaeth Cyngor Wrecsam fod llwyddiant diweddar Clwb Pêl-droed Wrecsam wedi dod â manteision helaeth i'r ddinas, gan gynnwys:

- Ymdeimlad newydd o gred yn y ddinas gyfan.
- Codi proffil y ddinas, annog buddsoddiad a grymuso busnesau.
- Manteision twristiaeth lleol a rhyngwladol.
- Wrecsam yn dod yn un o'r lleoliadau y chwiliwyd amdano fwyaf ar gyfer gwyliau gartref yn y DU yn 2024.

Mae **Amgueddfa Bêl-droed Cymru** yn cael ei datblygu yn Wrecsam, drwy brosiect Amgueddfa Dau Hanner. Bydd wedi'i lleoli ar Regent Street yn Wrecsam, a bydd yn cael ei gydleoli ag Amgueddfa Wrecsam. Y bwriad yw y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yng ngwanwyn 2024, ac y bydd yr amgueddfa yn agor yn 2025 neu 2026.

Ar 21 Chwefror, **cyhoeddodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth y byddai grant o £5.46m** yn cael ei roi i Gyngor Wrecsam i barhau â'r gwaith o ddatblygu'r amgueddfa. Bydd y cyllid "yn amodol ar amodau a chymeradwyaeth achos busnes llawn, yn golygu y gallwn barhau i ymgysylltu â'r gymuned ac ar draws Cymru gyfan ar y prosiect, gan ddatblygu'r cynnwys, y casgliadau a'r arddangosfeydd hyd at [yr] adeg adeiladu ac agor." Mae'r cyllid yn adeiladu ar swm o tua £800,000 a ymrwymwyd yn flaenorol i'r amgueddfa ar gyfer gwaith ymgysylltu.

Prosiect Porth Wrecsam

Bydd **prosiect Porth Wrecsam** yn datblygu'r coridor o amgylch Ffordd yr Wyddgrug. Bydd y Cae Ras, sef cartref Clwb Pêl-droed Wrecsam, yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynlluniau, a fydd hefyd yn cynnwys uwchraddio trafniadaeth, a swyddfeydd, gwestai a mannau cynadledda newydd. Bydd y cyllid yn dod o gymysgedd o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat.

Mae Llywodraeth Cymru yn **darparu £25m** ar gyfer prosiect Porth Wrecsam. **Ym mis Ebrill 2023**, neilltuodd Cyngor Wrecsam £17.83m o'r cyllid hwn i ddatblygu Stadiwm y Cae Ras, gan gynnwys eisteddle'r Kop. Bydd gweddill cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau prosiect ar ochr ddwyreiniol y porth, gan gynnwys "llawr y maes parcio a chyfnewidiau tir". Bydd y

cyngor hefyd yn gwneud cais am arian allanol ar gyfer cynllun yr ochr ddwyreiniol.

Hwb menter Wreccsam yn cau

Agorodd hwb menter Wreccsam ym mis Mai 2018, ac fe'i darparwyd gan Town Square Spaces ar ran Busnes Cymru. Roedd yr hwb yn rhoi mynediad i gyfleusterau cydweithio a manau cyfarfod yr oedd modd eu harchebu, mynediad am ddim i raglenni hyfforddi Busnes Cymru a Town Square, sesiynau un i un gyda chynghorwyr, a digwyddiadau.

Fodd bynnag, **caeodd yr hwb ar 16 Mehefin**, ar ôl i gyllid a chontract yr hwb gyda Llywodraeth Cymru ddod i ben ar 31 Mai. Mewn **llythyr agored**, nododd Town Square Services mai'r gobaith oedd mai dros dro y byddai'r hwb ar gau, ond nododd hefyd fod yn rhaid iddo dderbyn y gallai fod yn barhaol. Nododd hefyd ei fod yn gweithio'n galed o hyd i sicrhau dyfodol yr hwb a'i fod yn bwriadu ailagor y drysau yn hwyrach yn y flwyddyn, yn dibynnu ar geisiadau cyllido llwyddiannus.

Mewn erthygl a gyhoeddwyd gan Wrexham.com, **dywedodd** Llywodraeth Cymru, er nad yw cefnogaeth i hybiau ffisegol yn rhan o wasanaeth Busnes Cymru wrth symud ymlaen, mae modd i entrepreneuriaid a busnesau sydd wedi'u lleoli yn Wreccsam a ledled Cymru gael cyngor a chefnogaeth drwy'r gwasanaeth.

Cyhoeddodd Town Square adroddiad effaith i'r hwb yn 2021. Yn ôl yr adroddiad hwnnw:

- Dywed yr aelodau fod yr hwb wedi eu gwneud yn berchnogion busnes mwy effeithiol, ac wedi gwneud eu busnesau'n fwy proffidiol.
- I lawer o aelodau, mae'r hwb wedi newid eu hagweddau at Wreccsam, a'u canfyddiadau ohoni. Mae hefyd wedi effeithio ar y ffordd y maent yn teithio i ganol y ddinas, ac yn treulio amser yno.
- Roedd yr aelodau'n teimlo bod yr hwb yn creu ymdeimlad o gymuned, ac roeddent yn teimlo bod hynny'n werthfawr iawn.

Yn ôl **adolygiad annibynnol** a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei phum hwb menter ledled Cymru:

- Mae Hybiau Menter wedi gweithio'n dda pan fo'r holl ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd ar waith.
- Mae Hybiau Menter wedi chwarae rhan bwysig wrth ymgysylltu ag entrepreneuriaid na fyddent o reidrwydd wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru ac wedi gwneud cyfraniad ystyrlon at eu taith o ran cychwyn busnes.

- Mae'r graddau y mae Hybiau Menter wedi cyflawni'r amcanion a ariannwyd yn amrywio, gyda pherfformiad cyffredinol yn erbyn DPAau a ariannwyd yn is na'r disgwyl.

5.3 Bargen Twf y Gogledd

Cafodd **Bargen Twf y Gogledd ei llofnodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU** ym mis Rhagfyr 2020. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn darparu £120m o gyllid yr un. Prif amcanion y fargen yw creu hyd at 4,200 o swyddi newydd erbyn 2036, cefnogi cynnydd o £2bn - £2.4bn yn yr economi dros yr un cyfnod, a chyflawni cyfanswm buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn.

Ers llofnodi'r cytundeb, ni fydd dau brosiect yn cael eu hariannu ganddo mwyach. Ni fydd **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan** yn derbyn cyllid mwyach gan fod llai o alw am gartrefi a seilwaith newydd na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, felly bydd y prosiect yn llawer llai na'r disgwyl. Bydd **Fferm Sero Net Llysfasi** yn cael ei hariannu nawr gan ffynonellau eraill, gan gynnwys Cronfa Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.

Ym mis Chwefror, agorodd Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n cyflawni'r fargen twf, **alwad am brosiectau newydd** – mae £30m o gyllid ar gael. Bydd yn dewis prosiectau ym mis Mehefin/Gorffennaf.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd WISERD **adroddiad ar Fargen Twf y Gogledd**, a oedd yn seiliedig ar nifer o gyfweiliadau dienw gyda swyddogion ac arweinwyr gwleidyddol sy'n ymwneud â'i datblygiad. Un o'r heriau allweddol a amlinellwyd yn yr adroddiad oedd:

Whilst the “Welsh Government have very much promoted an ethos of collaborative across region working”, as indicated by the publication of the recent North Wales Regional Economic Framework, the UK Government is now “driving in a different direction” [i14]. The Levelling Up and Community Renewal funds are seen as undermining regional strategic approaches..

The present reality is thus one of “six local authorities driven through [UK] Government policy to work in silos on developing their own microeconomies” [i14], which is in tension with Welsh Government efforts to develop more regional partnership level working.

5.4 Cysylltiadau economaidd trawsffiniol

Ar 18 Mai, cyfarfu'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd â Maer Manceinion Fwyaf, Maer Dinas-Ranbarth Lerpwl a Chonswl

Cyffredinol Iwerddon i drafod y cysylltiadau rhwng gogledd Cymru, gogledd-orllewin Lloegr ac Iwerddon.

Mewn **datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mai**, tynnodd y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd sylw at gydweithio trawsffiniol mewn perthynas â thrafnidiaeth, a datgarboneiddio diwydiant. Yn benodol, nododd y cyfleoedd o amgylch hydrogen, gwynt ar y môr a niwclear, a'r consortiwm trawsffiniol **HyNet**. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau ar gyfer y consortiwm hwn yn Lloegr, fodd bynnag, mae'r prosiect yn Hanson Cement Works yn Padeswood yn un o'r rhai sy'n rhan o drafodaethau i greu clystyrau dal, defnyddio a storio carbon.